

Adroddiad Safonau'r Gymraeg



1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021

1. Cyflwyniad

Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg hysbysiad cydymffurfio i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ar 25 Gorffennaf 2016.

Amlinellodd yr hysbysiad cydymffurfio hwn ddyletswydd CGGC i fodloni 147 o'r Safonau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Rhoddodd y Mesur hwn statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg fel na ellir trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diben cyflwyno Safonau'r Gymraeg yw sicrhau y gall y rheini yng Nghymru sydd am fyw eu bywydau yn Gymraeg wneud hynny drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a rhai mudiadau trydydd sector ddarparu eu gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i CGGC gyflwyno adroddiad blynyddol, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Llundio Polisi a Gweithredu. Ceir hefyd ddarpariaeth yn y Safonau o ran cyhoeddi a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Adroddiad Blynyddol. Mae'r Adroddiad hwn yn amlinellu cynnydd CGGC tuag at gydymffurfio â'r Safonau rhwng 1 Ebrill 2020 a'r 31 Mawrth 2021.

2. Cefndir

Cyfes o ofynion wedi'u rhwymo mewn cyfraith yw Safonau'r Gymraeg, gyda'r nod o wella'r gwasanaethau dwyieithog y gall pobl Cymru ddisgwyl eu cael gan nifer o gyrff cyhoeddus a statudol. Mae CGGC hefyd wedi'i gynnwys. Mae'r Safonau'n nodi'n glir beth yw ein cyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau dwyieithog, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Safonau'r Iaith wedi'u rhannu'n 5 dosbarth gwahanol:

- Cyflenwi Gwasanaethau
- Llundio Polisiâu
- Gweithredol
- Cadw Cofnodion
- Hyrwyddo

Mae'n rhaid i CGGC gydymffurfio â Safonau ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau, Llundio Polisiâu, Safonau gweithredol, a Chadw Cofnodion.

Nod y Safonau yw:

- Ei gwneud hi'n eglur i fudiadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg.
- Ei gwneud hi'n fwy eglur i siaradwyr Cymraeg ynghylch y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg.
- Sicrhau mwy o gysondeb mewn gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

3. Rôl Swyddog y Gymraeg

Mae'r Swyddog Risg ac Effaith wedi ymgymryd â rôl Swyddog y Gymraeg, gyda chefnogaeth Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu'r Sector. Yn ystod y pandemig, bu'n gweithio gyda thimau ar draws CGGC yn eu cynorthwyo. Mae'r Swyddog Risg ac Effaith wedi cwrdd ag aelodau amrywiol o'r staff i drafod y safonau ac wedi cynorthwyo aelodau newydd o'r staff gydag unrhyw gwestiynau y gallai fod ganddynt.

Yn ogystal â chefnogi'r gwaith o sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'r safonau, mae'r Swyddog Risg ac Effaith yn parhau i weithio'n agos gyda thîm Hybu'r Comisiynydd, sydd wedi newid rolau gwaith yn ddiweddar. Mae prif gyswllt y tîm wedi'i secondio i Lywodraeth Cymru ac mae cyfarfodydd wedi'u trefnu gydag aelod arall o'r tîm Hybu i drafod y cynnydd ar y cynllun gwaith.

Mae nodiadau cyfarwyddyd bwrdd gwaith ar gael i gynorthwyo staff â'r broses gydymffurfio ac mae'r rhain wedi'u cadw yn ffolder Cyffredinol CGGC ar Teams. Mae prif elfennau'r nodiadau cyfarwyddyd yn ymdrin â'r goblygiadau ymarferol bob dydd o geisio cadw at y Safonau, megis sut i ateb y ffôn; sut i drefnu cyfarfodydd, ystyried iaith ddewisol cyfranogwyr; a chofnodi iaith ddewisol ein haelodau a'n cysylltiadau.

4. Gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg

Yn ystod 2020, gwnaeth CGGC a Chomisiynydd y Gymraeg adolygu a llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig. Adolygwyd y cynllun gwaith hefyd, sy'n amlinellu'r gwaith ar y cyd ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyd-ddarparu cyfleoedd dysgu, a chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo gwaith CGGC a'r Comisiynydd mewn digwyddiadau cenedlaethol.

5. Y Gymraeg a'n rhaglen digwyddiadau a dysgu

Oherwydd Covid-19, cafodd ein hyfforddiant ei ohirio rhwng mis Medi a mis Mawrth i ddechrau, gan gynnwys yr adolygiad o'n cynnig dysgu yn y Gymraeg. Pan wnaeth ein rhaglen ddysgu ailgychwyn, cafodd nifer o weminarau a chyrsgiau eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae datblygu'r rhaglen hon ymhellach yn bwysig i'r gwasanaeth y mae CGGC yn ei ddarparu ac rydym yn parhau i chwilio am hyfforddwyr cymwys â phrofiad yn y meysydd pwnc i'n helpu ni i gyflenwi ein rhaglen. Rydym yn gweithio gydag aelod-fudiadau sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf er mwyn gweld sut gallwn ni gryfhau ein cynnig hyfforddiant yn y Gymraeg.

Yn ystod y pandemig, gwnaeth digwyddiadau CGGC hefyd symud ar-lein. Cyflwynodd hyn heriau i gynnal digwyddiadau dwyieithog ar y dechrau. Mae CGGC yn defnyddio Microsoft Teams fel ei brif blatfform ar gyfer cyfarfodydd ar-lein. Ar y dechrau, roedd y swyddogaethau'n wael i gefnogi cyfarfodydd dwyieithog. Gweithiodd CGGC gyda swyddfa'r Comisiynydd i ddod o hyd i ddatrysiadau. Gwnaethom addasu fformatau i gefnogi cyfarfodydd dwyieithog drwy'r pandemig a buddsoddi mewn meddalwedd arall, gan gynnwys Zoom, i ddarparu'r swyddogaeth gyfieithu. Rydym yn parhau i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o gefnogi cyfarfodydd dwyieithog ar-lein ac yn rhoi adborth i swyddfa'r Comisiynydd lle y bo'n berthnasol.

6. Cwynion – yn unol â Safon 141

Cyflenwi Gwasanaethau – Mae CGGC yn rhwym wrth 75 o Safonau Gwasanaeth.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod hwn.

Llunio Polisi – Mae CGGC yn rhwym wrth 16 o Safonau Llunio Polisi.

Nid oes unrhyw gwynion wedi dod i law yn ystod y cyfnod hwn o ran cydymffurfiaeth CGGC â'r Safonau Llunio Polisi.

Gweithredol – Mae CGGC yn rhwym wrth 46 o Safonau Gweithredol.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod hwn o ran cydymffurfiaeth CGGC â'r Safonau Gweithredol.

7. Sgiliau Cymraeg a dysgu Cymraeg – yn unol â Safon 145

Cred CGGC ei fod yn ymateb i'r Safonau mewn modd positif. Yn 2020-21, cafodd 7 aelod o'r staff hyfforddiant cynefino ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, fel rhan o'u cyfnod cynefino yn CGGC. Mae CGGC yn cyflwyno hyfforddiant gloywi yn y Gymraeg i bob aelod o staff bob dwy flynedd a mynychodd 56 o bobl yr hyfforddiant hwn.

Rydym yn cynnig y cwrs ar-lein, Cymraeg Gwaith, lle gall staff ennill cymwysterau yn y Gymraeg (Lefelau 1-3, yn dibynnu ar rolau'r staff). Oherwydd y pandemig a threfniadau gweithio, ni wnaeth unrhyw aelod o'r staff ennill cymwysterau na chwblhau hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn.

Mae CGGC yn ymrwymedig i annog pob aelod o'i staff i ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg sydd ganddynt, ac i greu amgylchedd gweithio dwyieithog lle y maen nhw'n teimlo y gallant ddefnyddio'r iaith. Caiff dysgwyr a siaradwyr llai hyderus eu hannog i ddefnyddio'r iaith mewn amgylchedd cefnogol nad yw'n beirniadu.

Sgiliau Cymraeg staff CGGC ar 1 Ebrill 2020:

21	aelod o'r staff yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg
9	aelod o'r staff yn dysgu Cymraeg
71	aelod o'r staff yn credu nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg

8. Recriwtio – yn unol â Safon 148

Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn y categorïau canlynol:

Swyddi	Meini prawf
3	Sgiliau Cymraeg yn hanfodol
0	Angen dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl cael ei benodi i'r swydd
9	Sgiliau Cymraeg yn ddymunol
0	Nid oedd angen sgiliau Cymraeg

Hysbysebir pob swydd drwy nodi bod sgiliau Cymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Pan fo'n bosibl, rydym yn egluro lefel y sgiliau sydd eu hangen.

Cysylltiadau

Ruth Marks
Prif Weithredwr
CGGC
Un Rhodfa'r Gamlas
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF

Rhian Milcoy
Swyddog y Gymraeg
CGGC
Un Rhodfa'r Gamlas
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF

Ffôn: 0300 111 0124

(croesawir galwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg).

E-bost: help@wcva.org.uk

Mae CGGC yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn achosi oedi.

Elusen gofrestrdig 218093 / Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 425299 / Wedi'i gofrestru yng Nghymru